O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1235 (Cy. 150)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Llanarth, Ceredigion) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Traffig Dros Dro 2012

Gwnaed	*4 Mai 2012*
Yn dod i rym	*14 Mai 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Abergwaun — Bangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd a'i wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Mai 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Llanarth, Ceredigion) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Traffig Dros Dro 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 07:30 o'r gloch ar 14 Mai 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw darn o gefnffordd yr A487 ger Llanarth, yn Sir Geredigion, sy'n ymestyn o bwynt 320 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4342, i bwynt 1770 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4342, ger y fferm o'r enw Penrhiwlas.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.